PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Dweud EICH dweud

# Cadw'n Iach yng Nghymru:

## Barn y cyhoedd am iechyd y cyhoedd

### Canfyddiadau o'r arolwg o gartrefi sy'n cynrychioli Cymru



## Atodiad

Catherine A. Sharp, Karen Hughes a Mark A. Bellis

www.iechydcyhoedduscymru.org

# Atodiad

## Methodoleg

Gosodwyd sampl targed gynrychioliadol o 1,000 o unigolion (un o bob cartref) a **chwblhawyd 1,001 o arolygon**. Dewiswyd pobl 16 oed a throsodd oedd yn byw yng Nghymru i gymryd rhan yn yr arolwg gan ddefnyddio dull samplu tebygolrwydd ar hap haenedig. Defnyddiwyd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is*, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Byrddau Iechyd Lleol i haenu'r sampl. Defnyddiwyd y Mynegai i osod pob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is mewn cwintel amddifadedd. O fewn pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, dewiswyd nifer gymesur o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym mhob cwintel amddifadedd ar hap a dewiswyd cartrefi ar hap o fewn pob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is ddethol.

Cafodd y cartrefi (N=3,041) wybod am yr astudiaeth mewn llythyr dwyieithog yn eu gwahodd i gymryd rhan, neu ddewis peidio; penderfynodd 6% o'r cartrefi beidio â chymryd rhan ar y cam hwn. Dewisodd llai na chwarter (24%) y cartrefi cymwys yr ymwelodd cyfwelwyr â nhw beidio â chymryd rhan. Anfonwyd llythyr i'r cartrefi a ddewiswyd yn eu hysbysu am yr arolwg ac yn eu gwahodd i gymryd rhan, neu ddewis peidio. Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb yn nhai'r cyfranogwyr gan ddefnyddio holiadur a gyflwynwyd gan gyfwelwyr hyfforddedig proffesiynol. Dilynodd pob cyfwelydd God Ymddygiad Cymdeithas Ymchwil y Farchnad. Ar ôl cwblhau'r cyfweliad, cafodd unigolion daflen diolch gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Demograffeg y sampl

Dangosir demograffeg sampl yr astudiaeth o gymharu â phoblogaeth Cymru[i] yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Demograffeg y sampl a chymhariaeth â phoblogaeth Cymru (16 oed a throsodd).**

| | | Sampl | | Poblogaeth | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | n | % | n | % |
| Oedran (Blynyddoedd) | 16-29 | 136 | 13.6 | 560,649 | 22.0 |
| | 30-49 | 278 | 27.8 | 756,621 | 29.7 |
| | 50-69 | 338 | 33.8 | 797,440 | 31.4 |
| | 70+ | 249 | 24.9 | 429,087 | 16.9 |
| Rhyw | Dynion | 452 | 45.2 | 1,240,793 | 48.8 |
| | Merched | 549 | 54.8 | 1,303,004 | 51.2 |
| Cwintel amddifadedd | 1 (Lleiaf difreintiedig) | 205 | 20.5 | 512,687 | 20.2 |
| | 2 | 193 | 19.3 | 526,576 | 20.7 |
| | 3 | 209 | 20.9 | 530,196 | 20.8 |
| | 4 | 194 | 19.4 | 502,001 | 19.7 |
| | 5 (Mwyaf difreintiedig) | 200 | 20.0 | 472,337 | 18.6 |

[i] Data ar y boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, amcangyfrifon canol 2015 o'r boblogaeth ar gyfer Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is.

* Mae Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is yn ardal ddaearyddol â thua 1,500 o drigolion (rhwng 400 a 1,200 o gartrefi).

# Canfyddiadau

## Pa faterion iechyd y cyhoedd yr ystyrir eu bod yn cyfrannu fwyaf at iechyd a llesiant gwael?

Gofynnodd y cwestiwn hwn i'r cyfranogwyr nodi faint roeddent yn meddwl bod y 26 o faterion iechyd y cyhoedd yn cyfrannu at iechyd a llesiant gwael yn y cymunedau y maent yn byw, gweithio a chymdeithasu ynddynt. Caiff y 26 o faterion eu rhestru ym Mlwch 1 ynghyd â'r talfyriadau a ddefnyddiwyd yn y blychau. Yr opsiynau ymateb (a'r priod sgoriau ymateb) ar gyfer y cwestiwn hwn oedd:

Dim o gwbl (1) | Ychydig bach (2) | I ryw raddau (3) | Eithaf tipyn (4) | Yn fawr iawn (5)

**Blwch 1: Disgrifiad llawn a thalfyriad o'r materion iechyd y cyhoedd dan sylw.**

| Disgrifiad llawn o'r mater | Talfyriad |
|---|---|
| Dim digon o blant yn cael eu himiwneiddio rhag clefydau | Imiwneiddio plant |
| Diffyg sgrinio digonol i ddarganfod clefydau yn gynnar mewn plant | Sgrinio - plant |
| Diffyg sgrinio digonol ar gyfer salwch y gellid ei ddarganfod yn gynharach mewn oedolion | Sgrinio - oedolion |
| Anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd | Cael gafael ar ofal iechyd |
| Pobl yn cael eu heintio â heintiau peryglus mewn ysbytai | Heintiau ysbytai |
| Salwch o ganlyniad i hylendid bwyd gwael, megis salmonela | Salwch o fwyd |
| Lledaeniad heintiau megis Ffliw neu Dwbercwlosis | Heintiau |
| Lledaeniad HIV/AIDS | HIV/AIDS |
| Ymddygiad rhywiol peryglus sy'n arwain at heintiau a beichiogrwydd nas cynllunnir | Ymddygiad rhywiol |
| Arferion bwyta nad yw'n iach | Bwyta nad yw'n iach |
| Anweithgarwch corfforol | Anweithgarwch corfforol |
| Camddefnyddio alcohol | Camddefnyddio alcohol |
| Ysmygu | Ysmygu |
| Camddefnyddio cyffuriau | Camddefnyddio cyffuriau |
| Anafiadau o ganlyniad i ddamweiniau ar y ffyrdd, tân a pheryglon eraill | Anafiadau |
| Trais a chamdriniaeth | Trais |
| Ofn trosedd | Trosedd |
| Ofn terfysgaeth | Terfysgaeth |
| Effaith trychinebau megis llifogydd ac ofn trychinebau | Trychinebau |
| Llygredd aer | Llygredd aer |
| Newid yn yr hinsawdd | Newid yn yr hinsawdd |
| Diffyg cyflogaeth o ansawdd da a diogel | Diffyg cyflogaeth |
| Arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd | Arwahanrwydd |
| Tai o safon wael | Tai |
| Pobl ddim yn gallu fforddio dewisiadau iach | Fforddiadwyedd |
| Problemau o ganlyniad i rianta gwael | Rhianta gwael |

Cafodd y 26 o faterion iechyd y cyhoedd eu graddio yn seiliedig ar gyfanswm sgoriau ymateb y cyfranogwyr (gan addasu sgoriau yn ôl demograffeg y boblogaeth). Mae'r blychau canlynol yn nodi'r 10 mater iechyd y cyhoedd uchaf yn gyffredinol ac yn ôl grwpiau demograffig, gyda'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod pob mater yn cyfrannu *yn fawr iawn* neu *eithaf tipyn.*

## Poblogaeth gyffredinol

**Materion ymddygiadol** a nodwyd fwyaf fel y ffactorau a oedd yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd a llesiant gwael, wedi'u dilyn gan **arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd** a **materion iechyd y cyhoedd** (gweler Blwch 2). Roedd mwy na hanner y bobl o'r farn bod 13 o faterion yn gwneud cyfraniad pwysig.

**Blwch 2: Y 10 mater iechyd y cyhoedd uchaf yn gyffredinol.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod pob mater yn cyfrannu *yn fawr iawn* neu *eithaf tipyn.*

| | Pawb |
|---|---|
| 1 | Ysmygu (83%) |
| 2 | Camddefnyddio cyffuriau (76%) |
| 3 | Camddefnyddio alcohol (73%) |
| 4 | Anweithgarwch corfforol (72%) |
| 5 | Bwyta nad yw'n iach (71%) |
| 6 | Arwahanrwydd (63%) |
| 7 | Rhianta gwael (58%) |
| 8 | Heintiau ysbytai (55%) |
| 9 | Sgrinio – oedolion (52%) |
| 10 | Cael gafael ar ofal iechyd (56%) |

## Yn ôl rhyw

Cafodd yr un 10 mater uchaf eu nodi gan ddynion a merched, er bod peth gwahaniaeth o ran eu safle (gweler Blwch 3). Roedd **anweithgarwch corfforol** ac **anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd** yn uwch ar restr dynion, ac roedd **camddefnyddio alcohol** a **pobl yn cael eu heintio â heintiau peryglus mewn ysbytai** yn uwch ar restr merched. Yn achos merched, nododd mwy na hanner yr holl ferched fod y 10 mater uchaf yn gyfranwyr mawr (h.y. *yn fawr iawn* neu *eithaf tipyn*). Yn achos dynion, roedd o leiaf hanner yr holl ddynion yn ystyried bod yr wyth mater uchaf yn gyfranwyr mawr.

**Blwch 3: Y 10 mater iechyd y cyhoedd uchaf, yn ôl rhyw.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod pob mater yn cyfrannu *yn fawr iawn* neu *eithaf tipyn.*

| | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| 1 | Ysmygu (80%) | Ysmygu (85%) |
| 2 | Camddefnyddio cyffuriau (72%) | Camddefnyddio cyffuriau (79%) |
| 3 | Anweithgarwch corfforol (70%) | Camddefnyddio alcohol (77%) |
| 4 | Camddefnyddio alcohol (68%) | Anweithgarwch corfforol (73%) |
| 5 | Bwyta nad yw'n iach (69%) | Bwyta nad yw'n iach (74%) |
| 6 | Arwahanrwydd (59%) | Arwahanrwydd (67%) |
| 7 | Rhianta gwael (53%) | Rhianta gwael (62%) |
| 8 | Cael gafael ar ofal iechyd (50%) | Heintiau ysbytai (61%) |
| 9 | Sgrinio - oedolion (46%) | Sgrinio - oedolion (57%) |
| 10 | Heintiau ysbytai (48%) | Cael gafael ar ofal iechyd (61%) |

## Yn ôl oedran

Fel y dangosir ym Mlwch 4, **ysmygu** a **camddefnyddio cyffuriau** a nodwyd fel y cyfranwyr mwyaf ac ail fwyaf at iechyd a llesiant gwael ar gyfer pob grŵp oedran, ac yna **camddefnyddio alcohol**, **anweithgarwch corfforol** ac **arferion bwyta nad yw'n iach** oedd y tri nesaf. Yn chweched, nodwyd **arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd** ar gyfer pob oedran. Roedd **problemau o ganlyniad i rianta gwael** yn y 10 uchaf ar gyfer pawb heblaw am bobl rhwng 30 a 49 oed, ac roedd **anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd** a **diffyg sgrinio digonol ar gyfer salwch y gellid ei ddarganfod yn gynharach mewn oedolion** yn y 10 uchaf ar gyfer pawb heblaw am y grŵp oedran ieuengaf. Roedd **pobl yn cael eu heintio â heintiau peryglus mewn ysbytai** yn y 10 uchaf ar gyfer pobl 50 oed a throsodd; roedd **trais a chamdriniaeth** a **pobl ddim yn gallu fforddio dewisiadau iach** yn y 10 uchaf ar gyfer y ddau grŵp oedran ieuengaf; ac roedd **ymddygiad rhywiol peryglus sy'n arwain at heintiau a beichiogrwydd nas cynllunnir** yn y 10 uchaf ar gyfer y grŵp ieuengaf. Heblaw am **ymddygiad rhywiol peryglus sy'n arwain at heintiau a beichiogrwydd nas cynllunnir** (ar gyfer y rhai rhwng 16 a 29 oed) nododd mwy na hanner y categori oedran perthnasol fod y 10 mater uchaf yn gyfranwyr mawr.

**Blwch 4: Y 10 mater iechyd y cyhoedd uchaf, yn ôl oedran.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod pob mater yn cyfrannu *yn fawr iawn* neu *eithaf tipyn.*

| | 16-29 oed | 30-49 oed | 50-69 oed | 70+ oed |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ysmygu (80%) | Ysmygu (82%) | Ysmygu (85%) | Ysmygu (83%) |
| 2 | Camddefnyddio cyffuriau (72%) | Camddefnyddio cyffuriau (74%) | Camddefnyddio cyffuriau (81%) | Camddefnyddio cyffuriau (75%) |
| 3 | Camddefnyddio alcohol (74%) | Anweithgarwch corfforol (74%) | Camddefnyddio alcohol (74%) | Camddefnyddio alcohol (70%) |
| 4 | Bwyta nad yw'n iach (66%) | Bwyta nad yw'n iach (72%) | Anweithgarwch corfforol (75%) | Anweithgarwch corfforol (68%) |
| 5 | Anweithgarwch corfforol (65%) | Camddefnyddio alcohol (72%) | Bwyta nad yw'n iach (75%) | Bwyta nad yw'n iach (70%) |
| 6 | Arwahanrwydd (54%) | Arwahanrwydd (63%) | Arwahanrwydd (68%) | Arwahanrwydd (65%) |
| 7 | Rhianta gwael (55%) | Sgrinio - oedolion (52%) | Rhianta gwael (64%) | Rhianta gwael (57%) |
| 8 | Trais (53%) | Fforddiadwyedd (57%) | Cael gafael ar ofal iechyd (64%) | Heintiau ysbytai (56%) |
| 9 | Fforddiadwyedd (54%) | Cael gafael ar ofal iechyd (54%) | Heintiau ysbytai (61%) | Sgrinio - oedolion (51%) |
| 10 | Ymddygiad rhywiol (49%) | Trais (53%) | Sgrinio - oedolion (55%) | Cael gafael ar ofal iechyd (58%) |

## Yn ôl cwintel amddifadedd

**Camddefnyddio cyffuriau** oedd y cyfrannwr mwyaf at iechyd a llesiant gwael ymhlith trigolion o'r cymunedau mwyaf difreintiedig; yr unig adeg lle disodlwyd **ysmygu** (gweler Blwch 5). Roedd **arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd** hefyd yn y pum uchaf ar gyfer unigolion mwy difreintiedig, ac arhosodd yn y chweched safle ar gyfer unigolion llai difreintiedig. Daeth **trais a chamdriniaeth** yn chweched yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Roedd **problemau o ganlyniad i rianta gwael**, **anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd** a **diffyg sgrinio digonol ar gyfer salwch y gellid ei ddarganfod yn gynharach mewn oedolion** yn y 10 uchaf ar gyfer pob cwintel amddifadedd; ac roedd **pobl yn cael eu heintio â heintiau peryglus mewn ysbytai** yn y 10 uchaf ar gyfer pawb ond y rhai yn yr ail gwintel mwyaf difreintiedig. Dim ond yn y 10 uchaf ar gyfer y cwintel lleiaf difreintiedig y nodwyd **diffyg cyflogaeth o ansawdd da a diogel**; a dim ond ar gyfer yr ail gwintel mwyaf difreintiedig y nodwyd **pobl ddim yn gallu fforddio dewisiadau iach**.

**Blwch 5: Y 10 mater iechyd y cyhoedd uchaf, yn ôl cwintel amddifadedd.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod pob mater yn cyfrannu *yn fawr iawn* neu *eithaf tipyn.*

| | Lleiaf difreintiedig Cwintel 1 | Cwintel 2 | Cwintel 3 | Cwintel 4 | Mwyaf difreintiedig Cwintel 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ysmygu (86%) | Ysmygu (83%) | Ysmygu (81%) | Ysmygu (85%) | Camddefnyddio cyffuriau (84%) |
| 2 | Camddefnyddio cyffuriau (75%) | Camddefnyddio cyffuriau (71%) | Camddefnyddio cyffuriau (70%) | Camddefnyddio cyffuriau (80%) | Ysmygu (80%) |
| 3 | Bwyta nad yw'n iach (79%) | Bwyta nad yw'n iach (75%) | Camddefnyddio alcohol (70%) | Camddefnyddio alcohol (73%) | Camddefnyddio alcohol (76%) |
| 4 | Camddefnyddio alcohol (80%) | Anweithgarwch corfforol (77%) | Anweithgarwch corfforol (69%) | Arwahanrwydd (63%) | Anweithgarwch corfforol (70%) |
| 5 | Anweithgarwch corfforol (78%) | Camddefnyddio alcohol (65%) | Bwyta nad yw'n iach (67%) | Bwyta nad yw'n iach (68%) | Arwahanrwydd (66%) |
| 6 | Arwahanrwydd (68%) | Arwahanrwydd (58%) | Arwahanrwydd (59%) | Anweithgarwch corfforol (64%) | Trais (65%) |
| 7 | Rhianta gwael (62%) | Rhianta gwael (57%) | Heintiau ysbytai (54%) | Cael gafael ar ofal iechyd (62%) | Bwyta nad yw'n iach (68%) |
| 8 | Sgrinio – oedolion (53%) | Cael gafael ar ofal iechyd (51%) | Cael gafael ar ofal iechyd (54%) | Rhianta gwael (62%) | Sgrinio – oedolion (58%) |
| 9 | Heintiau ysbytai (55%) | Heintiau ysbytai (48%) | Sgrinio – oedolion (48%) | Sgrinio – oedolion (56%) | Heintiau ysbytai (61%) |
| 10 | Diffyg cyflogaeth (53%) | Sgrinio – oedolion (45%) | Rhianta gwael (49%) | Fforddiadwyedd (60%) | Rhianta gwael (61%) |

# Pa faterion iechyd y cyhoedd y mae angen i wasanaethau cyhoeddus wneud mwy i fynd i'r afael â nhw?

Er mwyn mesur barn am weithgarwch yng Nghymru i fynd i'r afael â'r un 26 o faterion iechyd y cyhoedd, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn credu bod gwasanaethau cyhoeddus (â phriod sgoriau ymateb):

Yn gwneud gormod yn barod (1) | Yn gwneud digon yn barod (2) | Angen gwneud mwy (3)

Ar sail sgoriau ymateb y cyfranogwyr, trefnwyd y materion yn ôl yr angen canfyddedig i weithredu; addaswyd sgoriau yn ôl demograffeg y boblogaeth genedlaethol. Mae'r blychau canlynol yn nodi'r 10 mater uchaf a nodwyd yn gyffredinol ac yn ôl grwpiau demograffig, gyda'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod *angen gwneud mwy* ar gyfer pob mater.

## Poblogaeth gyffredinol

Roedd mwy nag un o bob tri o bobl o'r farn bod angen i wasanaethau cyhoeddus *wneud mwy* i fynd i'r afael ag **arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd**; **anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd**; a **camddefnyddio cyffuriau** (gweler Blwch 6). Nododd mwy na hanner y cyfranogwyr fod angen gwneud mwy ar gyfer 15 o faterion.

**Blwch 6: Y 10 mater iechyd y cyhoedd uchaf lle mae angen gwneud mwy yn gyffredinol.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod *angen gwneud mwy* ar gyfer pob mater.

| | Pawb |
|---|---|
| 1 | Arwahanrwydd (69%) |
| 2 | Cael gafael ar ofal iechyd (69%) |
| 3 | Camddefnyddio cyffuriau (68%) |
| 4 | Sgrinio – oedolion (65%) |
| 5 | Heintiau ysbytai (63%) |
| 6 | Rhianta gwael (62%) |
| 7 | Sgrinio - plant (60%) |
| 8 | Diffyg cyflogaeth (59%) |
| 9 | Tai (57%) |
| 10 | Trais (57%) |

## Yn ôl rhyw

Cafodd yr un pedwar mater uchaf eu nodi gan ddynion a merched, er bod y drefn yn wahanol fel y dangosir ym Mlwch 7. Y ddau fater uchaf oedd **anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd** ac **arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd**. Roedd dynion a merched o'r farn bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â **pobl yn cael eu heintio â heintiau peryglus mewn ysbytai**, **diffyg sgrinio digonol i ddarganfod clefydau yn gynnar mewn plant** a **diffyg cyflogaeth o ansawdd da a diogel**. Roedd **problemau o ganlyniad i rianta gwael** yn uwch ar y rhestr i ddynion na merched, ond roedd mwy o ferched o'r farn bod angen gwneud mwy. Roedd **trais a chamdriniaeth** yn y 10 uchaf ar gyfer dynion, ac roedd **pobl ddim yn gallu fforddio dewisiadau iach** yn y 10 uchaf ar gyfer merched. I ddynion a merched, roedd mwy na hanner yr ymatebwyr o'r farn bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â phob un o'r 10 mater uchaf; nododd mwy o ferched na dynion bod angen gwneud mwy.

**Blwch 7: Y 10 mater iechyd y cyhoedd uchaf lle mae angen gwneud mwy, yn ôl rhyw.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod *angen gwneud mwy* ar gyfer pob mater.

| | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| 1 | Cael gafael ar ofal iechyd (66%) | Arwahanrwydd (75%) |
| 2 | Arwahanrwydd (63%) | Cael gafael ar ofal iechyd (72%) |
| 3 | Camddefnyddio cyffuriau (65%) | Sgrinio - oedolion (71%) |
| 4 | Sgrinio - oedolion (59%) | Camddefnyddio cyffuriau (71%) |
| 5 | Rhianta gwael (59%) | Heintiau ysbytai (67%) |
| 6 | Heintiau ysbytai (58%) | Sgrinio - plant (65%) |
| 7 | Sgrinio - plant (56%) | Diffyg cyflogaeth (64%) |
| 8 | Diffyg cyflogaeth (55%) | Rhianta gwael (65%) |
| 9 | Trais (54%) | Fforddiadwyedd (62%) |
| 10 | Tai (55%) | Tai (60%) |

## Yn ôl oedran

Fel y dangosir ym Mlwch 8, roedd gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran o ran y materion lle'r oedd angen gwneud mwy. Roedd **camddefnyddio cyffuriau** ar y brig ar gyfer pobl ifanc ac roedd **arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd** ar y brig ar gyfer y grŵp oedran hynaf. Roedd **arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd** yn faes â blaenoriaeth i bob grŵp oedran, fel **diffyg sgrinio digonol ar gyfer salwch y gellid ei ddarganfod yn gynharach mewn oedolion** ac ymddangosodd **diffyg sgrinio digonol i ddarganfod clefydau yn gynnar mewn plant** yn y 10 uchaf hefyd ar gyfer pob grŵp oedran. Roedd **tai o safon wael** yn flaenoriaeth uchel i'r rhai rhwng 16 a 29 oed, ac roedd **anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd** yn uwch i'r tri grŵp oedran arall. Roedd **trais a chamdriniaeth** yn y 10 uchaf ar gyfer pawb ond pobl rhwng 30 a 49 oed; roedd **pobl yn cael eu heintio â heintiau peryglus mewn ysbytai** yn y 10 uchaf ar gyfer pawb ond y rhai rhwng 16 a 29 oed; ac roedd **pobl ddim yn gallu fforddio dewisiadau iach** yn y 10 uchaf ar gyfer y ddau grŵp oedran iau. Dim ond yn y 10 uchaf ar gyfer pobl rhwng 50 a 69 oed roedd **llygredd aer**. Nododd mwy na hanner y carfannau fod angen gwneud mwy yn achos y 10 mater uchaf; roedd y canrannau yn dueddol o fod yn uwch ymhlith pobl rhwng 50 a 69 oed.

**Blwch 8: Y 10 mater iechyd y cyhoedd uchaf lle mae angen gwneud mwy, yn ôl oedran.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod *angen gwneud mwy* ar gyfer pob mater.

| | 16-29 oed | 30-49 oed | 50-69 oed | 70+ oed |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Camddefnyddio cyffuriau (65%) | Cael gafael ar ofal iechyd (73%) | Cael gafael ar ofal iechyd (78%) | Arwahanrwydd (72%) |
| 2 | Sgrinio - oedolion (62%) | Arwahanrwydd (67%) | Arwahanrwydd (75%) | Camddefnyddio cyffuriau (70%) |
| 3 | Arwahanrwydd (61%) | Camddefnyddio cyffuriau (68%) | Heintiau ysbytai (72%) | Sgrinio - oedolion (66%) |
| 4 | Tai (60%) | Sgrinio - oedolion (61%) | Sgrinio - oedolion (70%) | Cael gafael ar ofal iechyd (66%) |
| 5 | Rhianta gwael (61%) | Fforddiadwyedd (60%) | Camddefnyddio cyffuriau (70%) | Heintiau ysbytai (63%) |
| 6 | Diffyg cyflogaeth (58%) | Heintiau ysbytai (59%) | Sgrinio - plant (66%) | Rhianta gwael (65%) |
| 7 | Sgrinio - plant (58%) | Rhianta gwael (59%) | Diffyg cyflogaeth (65%) | Diffyg cyflogaeth (56%) |
| 8 | Cael gafael ar ofal iechyd (55%) | Sgrinio - plant (58%) | Trais (63%) | Sgrinio - plant (58%) |
| 9 | Trais (52%) | Tai (56%) | Rhianta gwael (64%) | Trais (56%) |
| 10 | Fforddiadwyedd (53%) | Diffyg cyflogaeth (56%) | Llygredd aer (59%) | Tai (56%) |

## Yn ôl cwintel amddifadedd

Roedd safleoedd materion lle'r oedd angen i wasanaethau cyhoeddus wneud mwy yn amrywio yn ôl cwintel amddifadedd (gweler Blwch 9), er bod **anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd**; **arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd**; **camddefnyddio cyffuriau**; a **diffyg sgrinio digonol ar gyfer salwch y gellid ei ddarganfod yn gynharach mewn oedolion** yn y pum uchaf ar gyfer pob cwintel. Roedd **problemau o ganlyniad i rianta gwael** yn uwch ymhlith ymatebwyr o'r cwintel lleiaf difreintiedig; roedd **pobl ddim yn gallu fforddio dewisiadau iach** yn uwch ymhlith unigolion mwy difreintiedig; ac roedd **pobl yn cael eu heintio â heintiau peryglus mewn ysbytai** yn uwch ymhlith y rhai o'r cwintel canol. Roedd **trais a chamdriniaeth** yn y 10 uchaf ar gyfer y cwintel mwyaf a lleiaf difreintiedig, ac roedd **diffyg cyflogaeth o ansawdd da a diogel** yn y 10 uchaf ar gyfer y tri chwintel canol. Ar gyfer pob cwintel amddifadedd, nododd mwy na hanner yr ymatebwyr fod angen gwneud mwy ar gyfer y 10 mater uchaf.

**Blwch 9: Y 10 mater iechyd y cyhoedd uchaf lle mae angen gwneud mwy, yn ôl cwintel amddifadedd.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a nododd fod *angen gwneud mwy* ar gyfer pob mater.

| | Lleiaf difreintiedig Cwintel 1 | Cwintel 2 | Cwintel 3 | Cwintel 4 | Mwyaf difreintiedig Cwintel 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Arwahanrwydd (71%) | Cael gafael ar ofal iechyd (71%) | Arwahanrwydd (67%) | Cael gafael ar ofal iechyd (74%) | Cael gafael ar ofal iechyd (77%) |
| 2 | Camddefnyddio cyffuriau (68%) | Arwahanrwydd (69%) | Heintiau ysbytai (65%) | Camddefnyddio cyffuriau (75%) | Arwahanrwydd (74%) |
| 3 | Rhianta gwael (65%) | Camddefnyddio cyffuriau (64%) | Cael gafael ar ofal iechyd (64%) | Sgrinio – oedolion (70%) | Camddefnyddio cyffuriau (75%) |
| 4 | Cael gafael ar ofal iechyd (61%) | Heintiau ysbytai (63%) | Sgrinio – oedolion (61%) | Diffyg cyflogaeth (66%) | Sgrinio – oedolion (71%) |
| 5 | Sgrinio – oedolion (61%) | Diffyg cyflogaeth (62%) | Camddefnyddio cyffuriau (60%) | Arwahanrwydd (66%) | Sgrinio - plant (70%) |
| 6 | Heintiau ysbytai (61%) | Sgrinio – oedolion (62%) | Diffyg cyflogaeth (58%) | Fforddiadwyedd (64%) | Tai (69%) |
| 7 | Trais (59%) | Rhianta gwael (62%) | Sgrinio - plant (57%) | Sgrinio - plant (64%) | Fforddiadwyedd (69%) |
| 8 | Tai (59%) | Sgrinio - plant (57%) | Rhianta gwael (55%) | Heintiau ysbytai (61%) | Trais (68%) |
| 9 | Sgrinio - plant (55%) | Llygredd aer (53%) | Tai (53%) | Anweithgarwch corfforol (60%) | Heintiau ysbytai (63%) |
| 10 | Fforddiadwyedd (52%) | Tai (51%) | Fforddiadwyedd (51%) | Rhianta gwael (62%) | Rhianta gwael (66%) |

# O ble y caiff pobl yng Nghymru wybodaeth am sut i gadw'n iach?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa mor aml roeddent yn cael gwybodaeth ynghylch sut i gadw'n iach o 24 o ffynonellau gwahanol (Gweler Blwch 10). Yr opsiynau ymateb (â phriod sgoriau ymateb) oedd:

Yn aml (3) | Weithiau (2) | Byth (1)

**Blwch 10: Disgrifiad llawn a thalfyriad o'r ffynhonnell wybodaeth a ystyriwyd.**

| Disgrifiad llawn o'r ffynhonnell | Talfyriad |
|---|---|
| Hysbysebion ar gyfer bwydydd iach a chynhyrchion eraill | Hysbysebion |
| Taflenni/posteri mewn lleoliadau gofal iechyd | Taflenni |
| Siarad â fferyllydd | Fferyllydd |
| Siaradwch â meddyg neu nyrs | Meddyg/nyrs |
| Siarad â pherthnasau, ffrindiau, cydweithwyr | Siarad â chyfoedion |
| Cylchgronau | Cylchgronau |
| Papurau newydd lleol | Papurau newydd lleol |
| Papurau newydd cenedlaethol | Papurau newydd cenedlaethol |
| Cylchgronau meddygol a gwyddonol | Cylchgronau gwyddonol |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru: gwefannau, ymgyrchoedd, digwyddiadau | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Fforymau trafod ar y rhyngrwyd | Fforymau'r rhyngrwyd |
| Gwefan Galw Iechyd Cymru | Galw Iechyd Cymru |
| Gwefannau elusennau iechyd | Elusennau iechyd |
| Gwefannau Awdurdodau Lleol neu Gynghorau | Awdurdod Lleol/Cyngor |
| Gwefannau'r GIG | Gwefannau'r GIG |
| Facebook, Twitter neu gyfryngau cymdeithasol eraill | Cyfryngau cymdeithasol |
| Chwilio'r rhyngrwyd (e.e. Google, YouTube, Wikipedia) | Chwilio'r rhyngrwyd |
| Apiau iechyd ar ffonau clyfar a llechi | Apiau iechyd |
| Podlediadau | Podlediadau |
| Rhaglenni radio am broblemau iechyd | Sioeau iechyd radio |
| Newyddion ar y radio | Newyddion ar y radio |
| Rhaglenni sgwrsio ar y teledu (e.e. Heno) | Rhaglenni sgwrsio ar y teledu |
| Rhaglenni teledu ffeithiol am iechyd | Sioeau ffeithiol am iechyd |
| Newyddion ar y teledu | Newyddion ar y teledu |

Cafodd ffynonellau gwybodaeth am iechyd eu graddio yn seiliedig ar gyfanswm sgoriau ymateb y cyfranogwyr a'u haddasu yn ôl demograffeg y boblogaeth. Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a ddefnyddiodd bob ffynhonnell *yn aml.*

## Poblogaeth gyffredinol

Mae'r rhan fwyaf o'r ffynonellau gwybodaeth a nodwyd fwyaf yn cynnwys dulliau traddodiadol, fel **siarad â pherthnasau, ffrindiau, cydweithwyr**, **meddyg/nyrs**, neu **fferyllydd**. Roedd o leiaf un o bob 10 o unigolion yn dal i gael gwybodaeth drwy **taflenni/posteri mewn lleoliadau gofal iechyd** (gweler Blwch 11).

**Blwch 11: Y 10 ffynhonnell gwybodaeth am iechyd uchaf yn gyffredinol.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a ddefnyddiodd bob ffynhonnell *yn aml.*

| | Pawb |
|---|---|
| 1 | Siarad â chyfoedion (36%) |
| 2 | Meddyg/nyrs (31%) |
| 3 | Newyddion ar y teledu (28%) |
| 4 | Chwilio'r rhyngrwyd (35%) |
| 5 | Sioeau ffeithiol am iechyd (27%) |
| 6 | Fferyllydd (20%) |
| 7 | Hysbysebion (17%) |
| 8 | Taflenni (13%) |
| 9 | Gwefannau'r GIG (20%) |
| 10 | Cyfryngau cymdeithasol (21%) |

## Yn ôl rhyw

Y brif ffynhonnell ar gyfer merched oedd **siarad â pherthnasau, ffrindiau, cydweithwyr**; a'r brif ffynhonnell ar gyfer dynion oedd **siarad â meddyg neu nyrs**. Roedd naw ffynhonnell yn y 10 uchaf ar gyfer dynion a merched (gweler Blwch 12). Roedd **newyddion ar y radio** yn y 10 uchaf ar gyfer dynion ond nid merched, ac roedd y **cyfryngau cymdeithasol** yn y 10 uchaf ar gyfer merched ond nid dynion. Nododd dynion a merched eu bod yn defnyddio **gwefannau'r GIG**. Yn achos pob ffynhonnell gwybodaeth am iechyd yn y 10 uchaf, nododd mwy o ferched na dynion eu bod yn eu defnyddio *yn aml*.

**Blwch 12: Y 10 ffynhonnell gwybodaeth am iechyd uchaf, yn ôl rhyw**. Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a ddefnyddiodd bob ffynhonnell *yn aml.*

| | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| 1 | Meddyg/nyrs (27%) | Siarad â chyfoedion (45%) |
| 2 | Siarad â chyfoedion (28%) | Meddyg/nyrs (35%) |
| 3 | Newyddion ar y teledu (22%) | Chwilio'r rhyngrwyd (39%) |
| 4 | Chwilio'r rhyngrwyd (30%) | Newyddion ar y teledu (28%) |
| 5 | Sioeau ffeithiol am iechyd (23%) | Sioeau ffeithiol am iechyd (30%) |
| 6 | Fferyllydd (17%) | Fferyllydd (23%) |
| 7 | Hysbysebion (15%) | Hysbysebion (19%) |
| 8 | Taflenni (10%) | Gwefannau'r GIG (25%) |
| 9 | Gwefannau'r GIG (14%) | Taflenni (16%) |
| 10 | Newyddion ar y radio (12%) | Cyfryngau cymdeithasol (25%) |

## Yn ôl oedran

Roedd rhai gwahaniaethau clir o ran trefn ffynonellau gwybodaeth am iechyd yn ôl grŵp oedran (gweler Blwch 13). **Chwilio'r rhyngrwyd** oedd y brif ffynhonnell ar gyfer y rhai rhwng 16 a 29 oed a'r ail brif ffynhonnell ar gyfer pobl rhwng 30 a 49 oed ond nid oedd yn y 10 uchaf ar gyfer y rhai oedd yn 70 oed a throsodd, lle y nodwyd mai **siarad â meddyg neu nyrs** oedd y brif ffynhonnell. Roedd **siarad â pherthnasau, ffrindiau, cydweithwyr**; **siarad â meddyg neu nyrs** a **newyddion ar y teledu** yn ffynonellau pwysig i bob grŵp oedran. Defnyddiwyd **ffynonellau ar y rhyngrwyd** gan y rhai rhwng 16 a 29 oed a 30 a 49 oed fwyaf, ond roedd unigolion 50 oed a throsodd yn defnyddio'r **teledu** a **radio** yn fwy. Dim ond yn achos pobl 70 oed a throsodd yr ymddangosodd **papurau newydd cenedlaethol** yn y 10 uchaf. Roedd **hysbysebion ar gyfer bwydydd iach a chynhyrchion eraill** mewn safle tebyg ar gyfer pob grŵp oedran.

**Blwch 13: Y 10 ffynhonnell gwybodaeth am iechyd uchaf, yn ôl oedran.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a ddefnyddiodd bob ffynhonnell *yn aml.*

| | 16-29 oed | 30-49 oed | 50-69 oed | 70+ oed |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Chwilio'r rhyngrwyd (51%) | Siarad â chyfoedion (44%) | Siarad â chyfoedion (33%) | Meddyg/nyrs (33%) |
| 2 | Siarad â chyfoedion (39%) | Chwilio'r rhyngrwyd (47%) | Meddyg/nyrs (29%) | Siarad â chyfoedion (25%) |
| 3 | Meddyg/nyrs (32%) | Meddyg/nyrs (31%) | Newyddion ar y teledu (24%) | Newyddion ar y teledu (23%) |
| 4 | Cyfryngau cymdeithasol (36%) | Newyddion ar y teledu (27%) | Sioeau ffeithiol am iechyd (28%) | Sioeau ffeithiol am iechyd (24%) |
| 5 | Newyddion ar y teledu (25%) | Sioeau ffeithiol am iechyd (28%) | Fferyllydd (21%) | Fferyllydd (19%) |
| 6 | Gwefannau'r GIG (31%) | Gwefannau'r GIG (33%) | Chwilio'r rhyngrwyd (25%) | Papurau newydd cenedlaethol (13%) |
| 7 | Hysbysebion (23%) | Cyfryngau cymdeithasol (30%) | Hysbysebion (15%) | Taflenni (6%) |
| 8 | Apiau iechyd (31%) | Hysbysebion (22%) | Taflenni (12%) | Hysbysebion (4%) |
| 9 | Sioeau ffeithiol am iechyd (26%) | Fferyllydd (19%) | Rhaglenni sgwrsio ar y teledu (16%) | Newyddion ar y radio (12%) |
| 10 | Fferyllydd (23%) | Taflenni (15%) | Newyddion ar y radio 12%) | Rhaglenni sgwrsio ar y teledu (9%) |

## Yn ôl cwintel amddifadedd

Nid oedd fawr ddim gwahaniaeth o ran y prif ffynonellau gwybodaeth am iechyd a ddefnyddiwyd yn ôl cwintel amddifadedd (gweler Blwch 14). **Siarad â pherthnasau, ffrindiau, cydweithwyr** oedd y brif ffynhonnell ar gyfer pob cwintel ac yna **siarad â meddyg neu nyrs**. Roedd **chwilio'r rhyngrwyd**, **newyddion ar y teledu** a **rhaglenni teledu ffeithiol am iechyd** yn y trydydd i'r pumed safle ar gyfer pob grŵp. Roedd y **cyfryngau cymdeithasol** yn y 10 uchaf ar gyfer y tri chwintel mwyaf difreintiedig, tra bod y ddau gwintel lleiaf difreintiedig yn defnyddio **newyddion ar y radio**. Roedd **gwefannau'r GIG** yn y 10 uchaf ar gyfer pob cwintel heblaw am yr ail gwintel mwyaf difreintiedig.

**Blwch 14: Y 10 ffynhonnell gwybodaeth am iechyd uchaf, yn ôl cwintel amddifadedd.** Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gyfran a ddefnyddiodd bob ffynhonnell *yn aml.*


| | Lleiaf difreintiedig Cwintel 1 | Cwintel 2 | Cwintel 3 | Cwintel 4 | Mwyaf difreintiedig Cwintel 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Siarad â chyfoedion (35%) | Siarad â chyfoedion (36%) | Siarad â chyfoedion (33%) | Siarad â chyfoedion (39%) | Siarad â chyfoedion (38%) |
| 2 | Meddyg/nyrs (30%) | Meddyg/nyrs (33%) | Meddyg/nyrs (28%) | Meddyg/nyrs (35%) | Meddyg/nyrs (29%) |
| 3 | Sioeau ffeithiol am iechyd (33%) | Chwilio'r rhyngrwyd (44%) | Newyddion ar y teledu (25%) | Newyddion ar y teledu (24%) | Sioeau ffeithiol am iechyd (22%) |
| 4 | Newyddion ar y teledu (24%) | Newyddion ar y teledu (32%) | Chwilio'r rhyngrwyd (35%) | Chwilio'r rhyngrwyd (34%) | Newyddion ar y teledu (19%) |
| 5 | Chwilio'r rhyngrwyd (35%) | Sioeau ffeithiol am iechyd (33%) | Sioeau ffeithiol am iechyd (23%) | Sioeau ffeithiol am iechyd (22%) | Chwilio'r rhyngrwyd (26%) |
| 6 | Fferyllydd (22%) | Fferyllydd (21%) | Fferyllydd (24%) | Hysbysebion (20%) | Hysbysebion (20%) |
| 7 | Hysbysebion (21%) | Gwefannau'r GIG (26%) | Hysbysebion (12%) | Fferyllydd (17%) | Fferyllydd (19%) |
| 8 | Taflenni (16%) | Taflenni (14%) | Gwefannau'r GIG (17%) | Cyfryngau cymdeithasol (25%) | Taflenni (11%) |
| 9 | Gwefannau'r GIG (23%) | Rhaglenni sgwrsio ar y teledu (20%) | Cyfryngau cymdeithasol (19%) | Taflenni (13%) | Cyfryngau cymdeithasol (19%) |
| 10 | Newyddion ar y radio (16%) | Newyddion ar y radio (18%) | Taflenni (9%) | Newyddion ar y radio (17%) | Gwefannau'r GIG (16%) |

# Blaenoriaethau iechyd y cyhoedd yn ôl y cyhoedd yng Nghymru

Mae'r ffigurau canlynol yn dangos ymatebion y cyfranogwyr i'r 19 o flaenoriaethau iechyd y cyhoedd a archwiliwyd. Ystyriwyd gwahaniaethau rhwng grwpiau demograffig gan ddefnyddio atchweliad logistaidd gyda'r ymatebion yn cael eu grwpio yn ôl y rhai a oedd yn *cytuno* (*cytuno'n gryf* a *cytuno*) ac yn *anghytuno/ dim barn* (*anghytuno'n gryf*, *anghytuno*, a *ddim yn cytuno nac yn anghytuno*) ar gyfer pob mater. Nodir gwahaniaethau ystadegol bwysig yn ôl oedran, rhyw a chwintel amddifadedd.


Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf

### Dylai'r GIG wario llai ar drin salwch a mwy ar ei atal.





Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw, oedran, nac amddifadedd.

### Hoffwn weld mwy o ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd ar sut i fyw bywyd iachach.




Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw, oedran, nac amddifadedd.

### Dylai ysgolion addysgu rhagor am fyw bywyd iach i blant.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Dynion

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Merched

Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl oedran nac amddifadedd.

### Dylai rhieni gael cyngor proffesiynol ar sut i fagu eu plant yn dda.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Dynion

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Merched

Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl oedran nac amddifadedd.

Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf

### Dylai cyflogwyr wneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Amddifadedd: Cwintel mwyaf difreintiedig

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Amddifadedd: Cwintel lleiaf difreintiedig

Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw nac oedran.

### Dylid gorfodi cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn lleihau newid yn yr hinsawdd.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Oedran: 30-49 oed

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Oedran: 70+ oed


Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw nac amddifadedd.

### Ar y cyfan, rwy'n teimlo'n obeithiol am fywyd.




Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw, oedran, nac amddifadedd.


### Mae plentyndod diogel a llawn cariad yn hanfodol ar gyfer tyfu i fod yn oedolyn iach.




Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw, oedran, nac amddifadedd.

Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf

### Rwy'n pryderu wrth ymweld ag ysbyty y gallwn gael haint.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Oedran: 50-69 oed

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Oedran: 16-29 oed

Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw nac amddifadedd.

### Dylai pobl eu cadw eu hunain yn iach, nid gwaith gwasanaethau cyhoeddus yw hynny.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Oedran: 70+ oed

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Oedran: 16-29 oed

Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw nac amddifadedd.

### Dylai bwyd iach gostio ychydig yn llai a bwyd nad yw'n iach ychydig yn fwy.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Merched
Amddifadedd: 2il gwintel lleiaf difreintiedig

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Dynion
Amddifadedd: 3ydd cwintel lleiaf difreintiedig

Dim gwahaniaeth sylweddol o ran cytuno yn ôl oedran.

### Rwy'n cefnogi terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr lle y bydd hyn yn lleihau anafiadau traffig ffyrdd.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Merched
Oedran: 70+ oed

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Dynion
Oedran: 16-29 oed

Dim gwahaniaeth sylweddol o ran cytuno yn ôl amddifadedd.

Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf

**Yn aml, rwy'n teimlo ar wahân yn fy nghymuned leol.**





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Merched
Amddifadedd: 2il gwintel mwyaf difreintiedig

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Dynion
Amddifadedd: Cwintel lleiaf difreintiedig

Dim gwahaniaeth sylweddol o ran cytuno yn ôl oedran.

**Rwy'n ffyddiog y byddai'r GIG yn diwallu fy anghenion gofal iechyd pe byddwn yn sâl.**





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Dynion
Oedran: 70+ oed

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Merched
Oedran: 50-69 oed


Dim gwahaniaeth sylweddol o ran cytuno yn ôl amddifadedd.

**Pan fyddaf yn mynd at fy meddyg teulu, mae fel arfer yn siarad â mi am sut i fyw bywyd iachach.**




Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw, oedran, nac amddifadedd.


**Pan fyddaf yn siarad â phobl broffesiynol ym maes iechyd, megis nyrsys a fferyllwyr, maen nhw'n rhoi cyngor ar fyw bywyd iachach i mi.**




Dim gwahaniaethau sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw, oedran, nac amddifadedd.

Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf

### Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymuned leol.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Oedran: 70+ oed
Amddifadedd: 2il gwintel lleiaf difreintiedig

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Oedran: 16-29 oed
Amddifadedd: Cwintel mwyaf difreintiedig

Dim gwahaniaeth sylweddol o ran cytuno yn ôl rhyw.

### Dylid gwahardd hysbysebion am alcohol i leihau problemau defnyddio alcohol.





**Fwyaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Merched
Oedran: 30-49 oed

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Dynion
Oedran: 16-29 oed

Dim gwahaniaeth sylweddol o ran cytuno yn ôl amddifadedd.

### Dylid gwahardd hysbysebion am fwyd nad yw'n iach i leihau gordewdra mewn plant.




**Fwyaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Merched
Oedran: 50-69 oed

**Lleiaf tebygol o gytuno**
Rhyw: Dynion
Oedran: 16-29 oed

Dim gwahaniaeth sylweddol o ran cytuno yn ôl amddifadedd.

**ISBN 978-1-910768-70-9**

**© 2018 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Gall y deunydd yn y ddogfen hon gael ei atgynhyrchu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, a hi sy'n berchen ar yr hawlfraint yn y trefniant, y dyluniad a'r cynllun argraffyddol.

Tîm Ymchwil Hot House
Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor
Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd
Prifysgol Bangor
Bangor LL57 2DG
Ffôn: +44(0)1248 383519

Y Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a
Datblygu Rhyngwladol
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Tŷ Clwydian, Parc Technoleg Wrecsam
Wrecsam LL13 7YP
Ffôn: +44(0)1978 318413